



SWYDDI CYNGOR
RHONDDA CYNON TAF
COUNCIL JOBS



Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Candidate Information Pack

DISGRIFIAD SWYDD

CYNORTHWY-YDD TROCHI YN Y GYMRAEG

A chithau'n Gynorthwy-ydd Trochi yn y Gymraeg, byddwch chi'n gweithio dan arweiniad yr Athro Trochi yn y Gymraeg i gyflwyno model peripatetig o ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg yn effeithiol ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Cyfeirnod y Swydd: I'w gadarnhau

Dyddiad y Disgrifiad Swydd: Hydref 2022

Fersiwn:

Gradd	6
Lleoliad:	Tŷ Trevithick
Group	Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Uwchadran	Addysg
Adran	Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Carfan/Is-adran	Cyflawniad – Ysgolion Cynradd
Yn atebol i	Athro Trochi yn y Gymraeg
Swyddi sy'n atebol i'r swydd yma	Pennaeth Cyflawniad ar gyfer Ysgolion Cynradd
Oes angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	Oes. Manwl – gweithio gyda phlant

Pam gweithio i Gyngor Rhondda Cynon Taf?

Cyngor Rhondda Cynon Taf yw un o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru a dyma ein gweledigaeth: "I Ronda Cynon Taf fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus."

Os ydych chi'n gweithio i ni, bydd popeth a wnewch chi'n gwneud gwahaniaeth er gwell i'n cymuned a'r sector cyhoeddus.

Bydd ein rhaglenni sefydlu, hyfforddi a datblygu rhagorol yn eich helpu chi i dyfu yn eich rôl. Cewch chi eich herio a'ch cefnogi, a'r cyfle i ddysgu sgiliau newydd a throsglwyddadwy wrth i chi chwarae eich rhan yn helpu eraill.

Mae gyda ni gynllun pensiwn ardderchog gyda chyfraniadau cyflogwr a bydd ein buddion cymorth ariannol yn helpu i roi ymdeimlad o sicrwydd a lles i chi ar gyfer y dyfodol. Mae lles ein staff yn bwysig i ni ac mae ein polisiâu sy'n ystyriol o deuluoedd ac sy'n gynhwysol yn caniatáu hyblygrwydd pan fo angen hynny. Rydyn ni'n cynnig cymorth a chynghor gan gynnwys gwasanaeth cwnsela, cadw golwg ar iechyd, gwasanaeth nyrsio a ffisiotherapi. Mae gyda ni nifer o rwydweithiau staff gan gynnwys Rhwydwaith y Cynghreiriaid, Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr, 'Perthyn' sef ein rhwydwaith LHDTTC+ a Sbotolau ar gyfer staff Du, Asiaidd ac sydd o leiafrif ethnig.

Yn ogystal â hynny, bydd modd i chi gael ystod eang o fuddion staff gan gynnwys Aelodaeth 'Hamdden am Oes' am bris gostyngol, 'Cerdyn Vectis' i gael gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a gwasanaethau, cynllun Beicio i'r Gwaith a chynllun prynu technoleg.

Edrychwch ar ein [tudalennau gyrfaedd](#) i gael rhagor o wybodaeth am weithio i ni.

Diben y swydd:

Gweithio dan arweiniad yr Athro Trochi yn y Gymraeg i gyflwyno model peripatetig o ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg effeithiol ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi disgyblion sy'n hwyrrdyfodiaid i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg, neu'r rhai sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd ac sydd angen cymorth ychwanegol wedi'i dargedu o ran eu caffaeliad iaith.

Mae'r swydd yma'n rhan annatod o gyflawni'r deilliannau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) Rhondda Cynon Taf a bydd yn cefnogi'r ymrwymïadau a amlinellir yn Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

Yr hyn y byddwch chi'n ei gyflawni:

1. Cefnogi disgyblion unigol a/neu grwpiau o ddisgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg, neu'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol o ran dysgu Cymraeg.
2. Rhoi cymorth i'r athro i sefydlu adnoddau a phecynnau hyfforddi perthnasol i gefnogi cyflwyno'r ddarpariaeth.
3. Cynorthwyo i greu amgylchedd dysgu cefnogol i helpu disgyblion i deimlo'n fwyfwy hyderus wrth siarad Cymraeg trwy ddulliau meithrin a datblygu sgiliau gwranddo a siarad disgyblion.
4. Rhoi cymorth i'r athro i sicrhau bod adnoddau dysgu a dulliau cyflwyno yn effeithiol ac yn addas i anghenion unigol pob disgybl.
5. Cadw cofnodion o'r gwaith sy'n cael ei wneud ac asesu a monitro cynnydd disgyblion sy'n cael cymorth.
6. Derbyn adborth oddi wrth gartrefi, ysgolion a rhieni/cynhalwyr/gwarcheidwaid y dysgwyr fel y bo'n briodol ac wrth ymgynghori â'r Athro Trochi yn y Gymraeg i addasu dulliau dysgu lle bo'n briodol.
7. Darparu gwybodaeth, cefnogaeth ac arweiniad i rieni a gwarcheidwaid disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth ddewis addysg cyfrwng Cymraeg.
8. Cynorthwyo i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant mewn swydd i ysgolion a sicrhau integreiddio disgyblion i leoliad addysgol cyfrwng Cymraeg.
9. Cydgysylltu â rhieni/cynhalwyr/gwarcheidwaid a'r ysgolion priodol i gefnogi pontio di-dor i leoliad addysgol cyfrwng Cymraeg newydd y disgybl neu'r ysgol bresennol.

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n gymesur â'r swydd ar gais y Pennaeth Cyflawniad neu'r Cyfarwyddwr Addysg neu yng ngoleuni cyfle cytûn i ddatblygu'n broffesiynol.

Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau iechyd a diogelwch perthnasol yn unol â threfniadau lleol.

Rhoi cymorth i'r Cyngor chwarae ei ran i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd ac i gyrraedd ei dargedau Lleihau Carbon ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu a hefyd o ran y nwyddau a'r gwasanaethau hynny y mae'n eu prynu neu'n eu comisiynu gan sefydliadau eraill.

Yr hyn y byddwch chi'n ei gyflawni:

Mae gan bob aelod o staff ran werthfawr a hanfodol i'w chwarae i gadw pobl yn ddiogel. Mae cyfrifoldeb ar unrhyw berson sydd â phryderon ynghylch diogelwch plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, NEU ymddygiad cydweithiwr tuag at blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, i roi gwybod am hyn ar unwaith. Dylid gwneud hyn trwy Reolwr Llinell yr unigolyn, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig neu drwy gysylltu â Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf.

BYDD CYNNWYS Y DDOGFEN YMA YN CAEL EI ADOLYGU O BRYD I'W GILYDD GAN YMGYNGHORI Â DEILIAD Y SWYDD. MAE'N BOSIBL BYDD Y DISGRIFIAD SWYDD YN NEWID YN SGIL HYNNY.

MANYLEB PERSON

Mae'r fanyleb yma'n nodi gwybodaeth a/neu gymwysterau, profiad yn y gorffennol, a chymwyseddau personol, a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma.

Mae'r adrannau **Gwybodaeth/Cymwysterau** a Phrofiad yn disgrifio'r gallu technegol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y swydd yma'n llwyddiannus.

Mae'r adran **Cymwyseddau** yn disgrifio'r mathau o sgiliau (heb fod yn dechnegol), y galluoedd, a'r nodweddion personol, a fyddai gyda'r person sy'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma. Mae'r cymwyseddau yn disgrifio sut byddai'r person hwnnw, yn ddelfrydol, yn gweithio gyda phobl eraill a sut y byddai'n ymgymryd â'i gyfrifoldebau.

Mae'r adran **Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol** yn disgrifio unrhyw briodoleddau eraill sy'n briodol i'r amgylchiadau penodol a fo'n ymwneud â'r swydd yma.

Gwybodaeth/Cymwysterau:

Hanfodol	Dymunol
Cymhwyster Cynorthwy-ydd Dysgu Lefel 3 neu gymhwyster neu brofiad cyfatebol.	
Dangos lefel uchel o gymhelliant personol ac ymrôl i waith yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.	
Ymrwymiad i werthoedd craidd Cyngor Rhondda Cynon Taf wrth weithredu, monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth.	
Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig i safon uchel.	

Profiad:

Hanfodol	Dymunol
Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifainc.	Profiad o weithio mewn amgylchedd ysgol.
Meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio TGCh yn effeithiol wrth eich gwaith o ddydd i ddydd.	

Sgiliau Cymraeg:

Hanfodol	Dymunol
Cymraeg Lefel 1 ☐	Cymraeg Lefel 2 ☐
<i>Bydd raid i bob gweithiwr gymryd rhan mewn sesiwn cyflwyniad i'r Gymraeg i gyrraedd y lefel yma.</i>	Cymraeg Lefel 3 ☐
Cymraeg Lefel 2 ☐	Cymraeg Lefel 3-5 ☐
Cymraeg Lefel 3 ☐	Cymraeg Lefel 4 ☐
Cymraeg Lefel 3-5 ☐	Cymraeg Lefel 5 ☒
Cymraeg Lefel 4 ☐	
Cymraeg Lefel 5 ☒	

I gael manylion ynglŷn â'r lefelau, edrychwch ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg.

Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol

Y modd i deithio ledled y Fwrdeistref Sirol.